

Si ar y Seryd

RHAGFYR 2016

Cylchlythr

Cymdeithas yr Iaith

Sir Gâr

Cyfarfod “Tynged yr Iaith Sir Gâr” - Cynllunio Dyfodol i'n Cymunedau Cymraeg

Beti George fydd yn agor cyfarfod nesaf *Tynged yr iaith Sir Gâr* am 10am Dydd Sadwrn Ionawr 29ain 2017 yn Llyfrgell Tref Caerfyrddin. Fe gyflwynodd hi gyfres “*Cymry, ond nid o ddewis*” oedd yn trafod profiadau pobl symudodd i'r Fro Gymraeg o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf ymlaen wrth gael eu cymhathu. Roedd y gyfres yn holi pam bod pethau wedi newid.

Beth yw'ch profiad chi o effaith y farchnad dai? Pa newid sydd wedi bod i'ch cymuned chi oherwydd y farchnad a datblygiadau tai?

Dewch â gwybodaeth i'r fforwm cyhoeddus, cysylltwch am gopi o holiadur datblygiadau tai ac anfonwch wybodaeth ymlaen llaw at bethan@cymdeithas.cymru.

Bydd cyfle i glywed mwy am Gynllun Datblygu Lleol Sir Gâr sydd yn caniatáu datblygiadau enfawr o dai sy'n newid ein cymunedau Cymraeg, a'r farchnad dai sydd yn golygu fod llawer o'r stoc tai presennol cael eu prynu gan bobl ddi-Gymraeg.

Gan fod adolygiad sylweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystod 2018, byddwn yn trafod sut i sicrhau fod yr adolygiad yn cynllunio dyfodol newydd i'n cymunedau Cymraeg ar sail profiadau'n cymunedau a gwybodaeth gan y canlynol:

Llinos Quelch – Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin
Owain Enoch - Swyddog Blaen Gynllunio Cynllun Datblygu Lleol
Alun Lenny – Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor
Linda Evans – Aelod y Bwrdd Gweithredol gyda chyfrifoldeb dros dai
Mair Stephens – Cadeirydd Panel Ymgynghorol y Gymraeg



10am, Sadwrn
29/01/2017
Llyfrgell Y Dref
Caerfyrddin

Cyfarfod Rhanbarth Sir Gâr

Byddwn ni'n cwrdd am **7pm ar y 10fed o Ionawr 2017 yn Nhafarn y Queen's yng Nghaerfyrddin** er mwyn gwneud trefniadau ymarferol cyfarfod Tynged yr Iaith Sir Gâr a thrafod gwasanaethau ieched yn Gymraeg. Croeso mawr i bawb!

Y Gwasanaeth Iechyd yn Sir Gâr

Bydd swyddog Bwrdd Iechyd Hywel Dda sydd yn gyfrifol am y Gymraeg yn dod i gyfarfod Fforwm Iaith Sirol fis Ionawr. Bydd cyfle i ni holi cwestiynau a byddwn ni'n cyflwyno enghreifftiau o brofiadau pobl o wasanaeth meddygol Cymraeg.

Mae rhai enghreifftiau wedi'n cyrraedd yn barod, er enghraifft, hwn:

“Rwy'n mynd i sesiynau therapi ar gyfer cylfwr iechyd meddwl, er bod tri arall yn y grwp a phob un yn siarad Cymraeg mae'r sesiynau yn digwydd yn Saesneg am nad yw'r arweinydd yn siarad Cymraeg.”

Ydych chi wedi cael:

- Llythyr uniaith Saesneg?
- Beth yw'r iaith sy'n cael ei chlywed fwyaf gan staff ar wardiau penodol?
- Ydych chi wedi cael profiad gwael wrth siarad Cymraeg neu geisio cêl gwasanaeth Cymraeg gan ddeintydd, mewn ysbyty neu fferyllfa, neu gan arbenigwyr fel ffisiotherapyddion, ceiropractyddion ayb?

Does dim rhaid enwi unigolion a gallwn ni gyflwyno'ch gwybodaeth yn ddienw.

Danfonwch unrhyw wybodaeth at bethan@cymdeithas.cymru neu drwy'r post at Gymdeithas yr Iaith Dolwerdd, Llanfihangel-ar-arth, Pencader, Caerfyrddin, SA39 9JU, neu ffoniwch 01970 624501 am ragor o wybodaeth

Llangennech

Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu symud pob ysgol ar hyd y continwwm iaith tuag at fod yn ysgolion Cymraeg er mwyn i bob plentyn adael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg.

Ysgol Llangennech yw'r gyntaf i gael ei hystyried ac mae'r broses yn cyrraedd y terfyn. Y cam nesaf fydd i'r Cyngor llawn ar y 18fed o Ionawr gymeradwyo'r bwriad i newid Ysgol Llangennech i fod yn ysgol Gymraeg. Byddwn ni'n ymuno gyda rhieni ysgol Llangennech, fydd yn casglu wrth i Gynghorwyr gyrraedd ar gyfer cyfarfod y Cyngor fore'r 18fed. Os gallwch chi roi chwarter awr, dewch draw i neuadd y sir yng Nghaerfyrddin.

Hon yw'r achos prawf – os bydd newid ysgol Llangennech i fod yn ysgol Gymraeg bydd yn gosod y ffordd ar gyfer gweddill ysgolion y sir.

COWBOIS RHOS BOTWNNOG

JAMIE BEVAN • OBLONG

